*(Parhad o'r dudalen flaen)*
ansawdd llawer o'r cyhoeddiadau hyn — ffurf sydd yn llai tebygol o oroesi na chyfrolau rhwymedig. Nid yw'r ffurf ansylweddol yn tueddu i ennill parch cyffredin — mae dyn yn fwy tebygol o golli neu waredu pamffledi na llyfrau. Dangoswyd hyn gan stori wir am weddw'r ffermwr defaid o Sir Gaernarfon y bu ei deulu yn ymwneud â threialon cŵn defaid am sawl cenhedlaeth. Erbyn iddo farw roedd ganddo lawer o gofnodion pwyllgorau, cofnodion llinach, catalogau a phamffledi eraill yn dilyn hanes y gamp o'r dechrau yn lleol ac yn genedlaethol. Ond llosgodd y weddw y rhain i gyd a dim ond y llyfrau sylweddol megis Beibl Peter Williams oedd ar ôl i'w cynnig i'r Llyfrgell Genedlaethol.

I'r mwyafrif o leygwyr, efallai mai catalogau sioeau yw'r mwyaf cyfarwydd o'r cyhoeddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid y fferm. Serch hynny, nid yw'r sioeau amaethyddol yr ydych yn ymweld â hwy yn ystod yr haf yn cynnwys dosbarthiadau ar gyfer y bridiau Cymreig yn unig. Fel arfer bydd yno hefyd ddosbarthiadau ar gyfer bridiau eraill a ddatblygodd dros y ffin, ar y cyfandir neu hyd yn oed mewn rhannau eraill o'r byd erbyn hyn.

Fel arfer, cymysg hefyd yw'r sioeau mwy arbenigol sy'n ymwneud ag anifeiliaid fel cŵn, cathod, adar neu gwningod, er ambell waith bydd cymdeithasau fel y Welsh Terrier Association neu'r Springer Spaniel Club of South Wales yn trefnu sioeau yn arbennig ar gyfer math arbennig o gi. Pa un ai ydynt yn rhai arbenigol neu'n rhai cyffredinol, heb os nac onibai, sioeau cŵn yw uchafbwynt byd y sioeau yng Nghymru. Gyda 125 o gymdeithasau cŵn ledled y wlad, o Lynfi i Lŷn ac o Dreherbert i Dreffynnon, yn cynnal hyd at dri digwyddiad bob blwyddyn, ni fydd un wythnos o'r flwyddyn yn mynd heibio heb fod sawl sioe wedi ei threfnu. Mae'r rhif mor uchel nes y bu'n rhaid i gangen Cymru o'r Kennel Club gyhoeddi dyddiadur sy'n rhestru a chadw trefn ar yr holl ddigwyddiadau. Yn gysylltiedig â phob sioe fe argreffir atodlen a chatalog — tipyn o waith argraffu i'r cwmnïau argraffu lleol.

Cynhyrchir catalog er mwyn hyrwyddo trefniadau sioe o ran y swyddogion, yn ogystal â rhoi gwybodaeth am y cystadleuwyr i ymwelwyr. Mewn gwirionedd nid yw catalog ond yn gofnod o leoliad ac amser y sioe ynghyd â rhestr o'r anifeiliaid a gymerodd ran a'u perchnogion. Ceir hefyd enwau swyddogion y sioe. Er mor syml yw hyn, mae casgliad o gatalogau dros gyfnod hir o amser yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth a all ddangos pob math o bethau eraill. Enghraifft syml o hyn yw catalogau sioeau amaethyddol, sy'n adlewyrchu newidiadau ym myd amaeth gyda chatalogau cynnar â dosbarthiadau niferus yn orlawn o geffylau gwedd tra bod catalogau diweddarach yn cynnwys mwy o ddosbarthiadau ar gyfer merlod bychain i'r plant. Dengys rhediad o gatalogau sioeau cŵn y cynnydd mewn bridiau ecsotig — arwydd o'r symiau sylweddol o arian y mae pobl yn barod i wario ar eu hobïau yn y dyddiau hyn. Yn 1994, mae'n bosib y gwelwch fwy o gŵn sy'n hannu o Dibet na chŵn traddodiadol Gymreig hyd yn oed mewn sioe leol fel sioe Cymdeithas Arddangos Cŵn Aberystwyth a gyhelir yn nhiriogaeth y corgwn. Annisgwyl hefyd yw'r ffaith y gall catalogau sioeau lleol hefyd fod o ddefnydd i'r sawl sy'n gwneud ymchwil i hanes teuluol gan dangos yn glir ddiddordebau eu cyndeidiau ym maes amaethyddiaeth.

I'r mwyafrif o bobl, rwy'n siŵr mai braidd yn sych yr ymddengys llawer o'r llenyddiaeth uchod (er fod enwau hir a phert yr anifeiliaid yn gallu bod yn hwyl), ond i'r sawl sydd â gwir ddiddordeb mae pori rhwng cloriau'r cyhoeddiadau hyn yn dod ag oriau o bleser amheuthun, er efallai mai ansylweddol yw eu ffurf. Ond pa mor bleserus bynnag yw'r sioe fach leol ar ddiwrnod heulog o haf, faint ohonom fyddai'n ystyried cadw'r catalog? Oherwydd y diofalwch hwn, mae hen gatalogau'n eitemau prin. Efallai y dylai pobl wneud mwy o ymdrech i'w casglu a'u cadw ar gyfer selogion y dyfodol. Ond cofiwch chi, petai rhywun yn mynd ati i gasglu'r holl gyhoeddiadau sy'n ymwneud ag anifeiliaid yng Nghymru, fe fyddai ganddo lyfrgell go fawr ymhen dim o amser!

**DAVID E. HUGHES**
**21 Stryd Madog, Llandudno**
**Gwynedd, LL30 2TL**
**Ffôn: (0492) 877700 neu 876243**
DEWIS HELAETH O LYFRAU AIL-LAW
AR WERTH BOB AMSER.
Ar agor: Llun – Sadwrn 9.00 – 5.00

# DATHLIADAU 1994

| | | |
|---|---|---|
| **800** | gorffen *Descriptio Kambriae* Gerallt Gymro | 1194 |
| **700** | gwrthryfel Madog ap Llywelyn yn erbyn Edward I | 1294 |
| **450** | geni Edmwnd Prys (1544-1623), bardd, archddiacon Meirionnydd | 1544 |
| **350** | marw Rhys Prichard (1579-1644, 'Y Ficer Prichard', bardd, ficer Llanymddyfri | 1644 |
| | marw Dr John Davies (*c.*1567-1644), Mallwyd, ysgolhaig | 1644 |
| **300** | marw Siôn Dafydd Las (John Davies), bardd teulu Nannau, yr olaf o'r beirdd teulu | 1694 |
| **250** | geni Dafydd Morris (1744-91), Tŵrgwyn, emynydd | 1744 |
| | geni Joseph Parry (1744-1826), peintiwr ac ysgrythwr | 1744 |
| | geni Thomas Beynon (1744-1833), archddiacon Ceredigion a noddwr eisteddfodau | 1744 |
| | geni Josiah Rees (1744-1804), gweinidog Undodaidd, sefydlydd *Trysorfa Gwybodaeth (Yr Eurgrawn)* | 1744 |
| | cyhoeddi *Aleluja*, casgliad cyntaf Williams Pantycelyn o emynau | 1744 |
| **200** | geni David Hughes (1794?-1862), 'Eos Iâl', awdur 'Ar gyfer heddiw'r bore' | 1794? |
| | geni David Thomas (1794-1882), arloeswr y diwydiant haearn yn U.D.A. | 1794 |
| | geni Charles Nice Davies (1794-1842), gweinidog ac athro Annibynnol | 1794 |
| | geni Evan Davies (1794-1855) 'Eta Delta', gweinidog Annibynnol a newyddiadurwr | 1794 |
| | marwDafydd William (1720/1-94), Llandeilo Fach, emynydd | 1794 |
| | marw Stephen Davies, Caerfyrddin, arweinydd gyda'r Bedyddwyr | 1794 |
| | Marw Syr William Jones, dwyreiniwr ac ysgolhaig o dras Cymreig | 1794 |
| **150** | geni Watcyn Wyn (1844-1905), bardd ac emynydd | 1844 |
| | geni Henry Owen (1844-1919), hynafiaethydd, trysorydd cyntaf Llyfrgell Genedlaethol Cymru | 1844 |
| | geni Ellis Edwards (1844-1915), prifathro Coleg y Bala | 1844 |
| | geni Griffith Ellis (1844-1913), Bootle, gweinidog amlwg gyda'r Methodistiaid Calfinaidd | 1844 |
| | geni Tudno (Thomas Tudno Jones, 1844-95), bardd | 1844 |
| | geni J. Roland Phillips (1844-87, hanesydd y Rhyfel Cartref yng Nghymru | 1844 |
| | geni Hugh Davies (1844-1907), 'Pencerdd Maelor', cerddor, arloesydd Tonic Sol-ffa | 1844 |
| | geni Syr Daniel Morris (1844-1933), llysieuegwr | 1844 |
| | marw Thomas William (1761-1844), emynydd | 1844 |
| | marw Dafydd Siencyn Morgan (1752-1844), athro canu, arloesydd cerddorol | 1844 |
| | marw Richard Mills (1809-44), 'Rhydderch Hael', cerddor a llenor cerddorol | 1844 |
| | marw Azariah Shadrach (1774-1844), emynydd, sefydlydd yr achos Annibynnol yn Aberystwyth | 1844 |
| | marw James Hughes (1779-1844), 'Iago Trichrug', bardd, esboniwr Beiblaidd | 1844 |
| | cyhoeddi *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg*, Maria Jane Williams | 1844 |
| **100** | geni W. Ambrose Bebb (1894-1955), llenor, hanesydd | 1894 |
| | geni J. T. Jones (1894-1975), Porthmadog, llenor, cyfieithydd Shakespeare | 1894 |
| | geni Simon B. Jones (1894-1964), bardd, un o 'Fois y Cilie' | 1894 |
| | geni H. R. Jones (1894-1930), sylfaenydd Plaid Cymru | 1894 |
| | marw John Davies (1841-94), 'Taliesin Hirathog', bardd | 1894 |
| | marw Thomas Williams (1807-94), 'Hafrenyd', cerddor | 1894 |
| | marw John Bickerton Morgan (1859-94), daearegwr | 1894 |
| | marw Robert Piercy (1825-94), peiriannydd sifil | 1894 |
| | marw David Griffith (1800-94), 'Clwydfard', bardd, archdderwydd | 1894 |
| | marw H. H. Vivian (1821-94), diwydiannwr, barwn Abertawe | 1894 |
| **50** | marw Alun Lewis (1915-44), bardd | 1944 |
| | marw J. G. Moelwyn Hughes (1869-1944), bardd, emynydd | 1944 |
| | marw Arglwydd Davies, Llandinam (1880-1944) | 1944 |
| | marw G. Hartwell Jones (1859-1944), offeiriad, hanesydd | 1944 |
| | marw R. D. Rowland (1853?-1944), 'Anthropos', awdur llyfrau plant | 1944 |